DYDDIAD CYHOEDDI: 22/11/2023

# Gweithdai i drafod dyfodol plannu coed gyda ffermwyr Cymru

## Crynodeb Gweithredol

### 1. Cefndir a chwestiynau ymchwil

1.1 Nod Llywodraeth Cymru (LlC) yw cefnogi plannu 180,000 hectar o goed erbyn 2050 fel rhan o'i strategaeth Sero Net a chyflawni amrywiaeth eang o fanteision amgylcheddol. O ystyried bod tua 85% o'r tir yng Nghymru[1] dan berchnogaeth neu reolaeth ffermwyr, mae cynyddu'r gorchudd coed yn gofyn am ddull cydweithredol gyda thirfeddianwyr. Mae'r gronfa o dystiolaeth yn gynyddol yn cydnabod y rhwystrau cymdeithasol a diwylliannol dyfnach a'r cyfleoedd sy'n dylanwadu ar broses lunio penderfyniadau ffermwyr, a'r angen i ddeall ac ymdrin â'r rhain er mwyn sicrhau llwyddiant creu coetir ar raddfa fawr[2]. Nod yr ymchwil hwn yw rhoi dealltwriaeth o safbwyntiau ffermwyr a'u gwerthoedd yng nghyswllt plannu coed yn fwy cyffredinol, yn hytrach na chanolbwyntio ar fanylion unrhyw gynllun neu bolisi tymor byr. Bydd y gwaith yn helpu i lunio cronfa o dystiolaeth yng Nghymru i gefnogi datblygu rhaglenni a pholisïau ehangach gan y llywodraeth yn ymwneud â phlannu coed. Yn fwy penodol, mae'n dechrau'r drafodaeth gyda'r diwydiant amaethyddol sy'n angenrheidiol i gychwyn argymhelliad Archwiliad Dwfn Coed a Phren am "'alwad i godi arfau' i hyrwyddo a chefnogi newid sylfaenol mewn plannu coed a chreu cynghrair dros newid, gan weithio gyda ffermwyr, tirfeddianwyr, cymunedau a gwirfoddolwyr ar draws Cymru."

1.2. Bwriad yr ymchwil oedd ymdrin â'r cwestiynau ymchwil canlynol:

a) Sut mae ffermwyr yn gweld swyddogaeth ffermwyr yn 2050?

---

[1] Llywodraeth Cymru (2022) Ffeithiau a Ffigurau Ffermio 2022

[2] Demski, C. for BEIS (2021). Net zero public engagement and participation: A research note

b) Beth yw'r rhesymau pam y byddent/na fyddent yn plannu coed? Pa dir fyddai ffermwyr yn barod i'w ddefnyddio i blannu coed?
c) Beth yw nodweddion cynlluniau talu y byddai ffermwyr yn eu derbyn?
d) Beth yw'r oblygiadau ar gyfer y math o ymyraethau sy'n debygol o gynyddu plannu coed ar dir amaethyddol?

## 2. Methodoleg

2.1. Mae'r adroddiad yn cyflwyno casgliadau o chwe gweithdy a gweithdy treialu a gynhaliwyd mewn saith lleoliad ar draws Cymru yn Chwefror a Mawrth 2023. Roedd penderfyniad bwriadol i ddefnyddio dull cyd-gynghorol, o ystyried gwerth cydnabyddedig dulliau o'r fath ar gyfer meysydd polisi cymhleth, lle mae angen i ddatrysiadau gael eu datblygu gydag ac ar gyfer pobl a lle mae cyflawni amcanion polisi yn gofyn am newidiadau mawr i fywydau o ddydd i ddydd[3].

2.2. Mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu barn y ffermwyr yr ymgysylltwyd â hwy yn hytrach na'r boblogaeth amaethyddol yn fwy cyffredinol. Maent yn rhoi dealltwriaeth o farn ffermwyr a'r problemau y maent yn eu hwynebu ac mae'n gyfraniad defnyddiol at y gronfa ehangach o dystiolaeth o farn ffermwyr am blannu coed.

2.3. Dyluniwyd yr ymchwil fel rhan o Gymrodoriaeth Ymchwil Polisi Gwyddor Cymdeithasol ac fe'i cyflwynwyd gan Menter a Busnes (MaB). Recriwtiwyd y cyfranogwyr ar gyfer y gweithdai gan MaB trwy alwadau agored ar-lein ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy rwydweithiau MaB ac amaethyddol. Gan fod yr amser a roddwyd i recriwtio yn fyr, nid oedd cwota pendant ar gyfer nodweddion penodol, ond cynhwyswyd amrywiaeth eang o nodweddion yn y sampl. Recriwtiwyd wyth o ffermwyr ar gyfer grŵp ffocws treialu lle profwyd y dull a recriwtiwyd pedwar deg saith arall i gymryd rhan yn y gweithdai wedi eu mireinio. Cadwyd nodiadau yn ystod y gweithdy gan gofnodwr. Dadansoddwyd y nodiadau gan ddefnyddio dadansoddiad thematig[4] ac maent wedi eu crynhoi yn yr adroddiad hwn.

2.4. Roedd y gweithdai yn cynnwys tair rhan:

***(a) Cam cyd-gynghori.*** I gyflwyno'r nodau plannu coed a rhai o'r gyrwyr y gwyddys amdanynt, a'r rhwystrau sy'n atal plannu coed ar ffermydd. Y bwriad oedd sefydlu'r unigolion yn y presennol a gadael iddynt fynegi eu barn am y cyd-destun presennol, gan eu galluogi i ganolbwyntio'n well ar y dyfodol yn y camau nesaf.

---

[3] Verfuerth, C., Demski, C., Capstick, S., Whitmarsh, L., & Poortinga, W. (2023), 'A people-centred approach is needed to meet net zero goals', Journal of the British Academy, 11(s4): 97–124. Cherry, C.E., Capstick, S., Demski, C., Mellier, C., Stone, L. a Verfuerth, C. (2021), Citizens' climate assemblies: Understanding public deliberation for climate policy. Caerdydd: *Canolfan Newid Hinsawdd a Thrawsnewidiadau Cymdeithasol.*

[4] Gweler e.e. Braun, V., & Clarke, V. (2012). *Thematic analysis*. American Psychological Association.

***(b) Cam Ôl-ddarogan.*** I edrych sut y gallai Cymru Sero Net sydd wedi cyflawni ei thargedau plannu coed erbyn 2050 edrych. Nod y rhan hon oedd creu lle ar wahân i densiynau'r presennol, a dynodi nodweddion polisïau ac amgylchiadau eraill sy'n cefnogi ffermwyr i blannu mwy o goed.

**(c) Dichonolrwydd a Pha Mor Ddymunol yw'r Llwybrau.** Yn y cam olaf, trafodwyd y llwybrau a ddynodwyd tuag at blannu coed yn fwy trylwyr i helpu i ddynodi beth sydd ei angen i annog a chefnogi ffermwyr i greu coetir.

## 3. Canfyddiadau

*Beth yw swyddogaeth ffermwyr yn 2050 ym marn y ffermwyr?*

3.1 Roedd dwy thema yn amlwg ar draws yr holl weithdai am swyddogaeth ffermwyr yn y dyfodol. Sef (1) y teimlad y dylai swyddogaeth ffermwyr yn 2050 ddal i fod yn gynhyrchu bwyd i'r gymuned ac i Gymru a (2) y rhan y mae ffermwyr yn ei chwarae yn ganolog i gymunedau lleol – yn arbennig cymunedau Cymraeg. Roedd cynhyrchu bwyd yn cael ei weld yn bwysig wrth gynyddu gwytnwch yn wyneb argyfyngau byd-eang, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o newid hinsawdd. Ar draws y gweithdai roedd amgyffrediad bod plannu coed yn cystadlu â chynhyrchu bwyd.

3.2 Wrth feddwl sut beth fyddai bod yn ffermwr yn 2050, roedd y cyfranogwyr yn gobeithio y byddai cynhyrchu bwyd mwy effeithlon (arloesedd ac efallai symud at gynhyrchu mwy o gnydau bwyd) yn galluogi gwell cydbwysedd bywyd a gwaith; y byddai gan ffermwyr fwy o rym ac y byddent yn cael gwell prisiau am y bwyd y maent yn ei gynhyrchu. Roeddent hefyd yn edrych ymlaen at ddyfodol lle byddai ffermio yn cael ei werthfawrogi gan gymdeithas yn ehangach. Un o'r heriau mwyaf amlwg a grybwyllwyd oedd yr angen i addasu i dywydd mwy eithafol ac roedd y cyfranogwyr hefyd yn bryderus iawn nad oedd y genhedlaeth iau yn cael eu hannog i ffermio, oherwydd yr ansicrwydd ariannol a'r diffyg parch tuag at ffermwyr oedd yn cael ei amgyffred.

*Beth yw'r rhesymau pam y byddent/na fyddent yn plannu coed? Pa dir fyddai ffermwyr yn barod i'w ddefnyddio i blannu coed?*

3.3 Y ddau brif yrrwr i ystyried plannu coed oedd y potensial ar gyfer incwm gwahanol ac i wella neu alluogi'r prif amcan sef cynhyrchu bwyd (e.e. trwy ddarparu lleiniau cysgodi, rheoli cyrsiau dŵr, atafaelu carbon ac ati)

3.4 Roedd nifer o ffactorau oedd yn atal y cyfranogwyr rhag plannu coed. Un oedd yr amgyffrediad na ellid troi yn ôl ar ôl trosi tir amaethyddol yn goetir ac y byddai'n lleihau eu gallu i addasu yn y dyfodol (gwaethygwyd hyn gan gredoau ehangach gan gynnwys na fyddai coetir yn cael yr un eithriadau treth â thir amaethyddol). Roedd plannu coed hefyd yn cael ei weld gan y cyfranogwyr fel rhywbeth sy'n cystadlu gyda'r llu o wahanol fathau o bwysau y mae ffermwyr yn eu hwynebu fel bodloni'r rheoliadau llygredd amaethyddol. Roedd safbwynt y ffermwyr hefyd wedi ei siapio gan amrywiaeth o broblemau ehangach yn gysylltiedig â chreu coetir fel y farn bod glaswelltir wedi ei reoli'n dda yn atafaelu carbon yn fwy effeithiol na choed ac yn llai tebygol o arwain at danau mewn tywydd eithafol.

*Beth yw nodweddion cynlluniau talu y byddai ffermwyr yn eu derbyn?*
*Beth yw'r oblygiadau ar gyfer y math o ymyraethau sy'n debygol o gael mwy o effaith o ran cynyddu plannu coed ar dir amaethyddol?*

3.5 Wrth drafod dymuniadau ar gyfer y dirwedd gymorth tymor hir, pwysleisiodd ffermwyr yr angen am berthynas o ymddiriedaeth a chydweithio rhwng y ffermwyr a chynghorwyr/swyddogion Llywodraeth Cymru. Roeddent hefyd yn galw am ddull mwy tymor hir o ran cymorth ariannol ac annog grym i wneud penderfyniadau tymor hir (e.e. trwy gyngor ar gyfrifiannell carbon). Cynlluniau hyblyg oedd yn galluogi ffermwyr i gymryd camau graddol tuag at greu coetir ac oedd yn adlewyrchu amgylchiadau unigol y fferm oedd yn cael ei ffafrio gan y cyfranogwyr.

3.6 Pwysleisiodd y cyfranogwyr hefyd yr angen i wneud gwybodaeth a chyngor yn fwy hygyrch i ffermwyr, i gynyddu gallu yng nghyswllt plannu coetir a'i reoli yn y diwydiant amaeth yn fwy eang (fel bod ffermwyr yn gallu bod yn fwy hyderus wrth wneud y penderfyniadau cywir) ac i sicrhau bod swyddogion maes yr oeddent yn ymddiried ynddynt gyda gwybodaeth leol.

## 4. Oblygiadau

4.1 Roedd y ffermwyr y gwnaethom ymgysylltu â nhw yn gweld eu hunain yn bennaf fel cynhyrchwyr bwyd. Felly mae polisïau, cyfathrebiadau a chynlluniau sydd wedi eu dylunio i wella a chyd-fynd â chynhyrchu bwyd yn debygol o fod yn fwy llwyddiannus wrth ymgysylltu â'r boblogaeth ffermio yn ei chyfanrwydd.

4.2 Nododd barn y cyfranogwyr eu dewis am blannu coed sy'n gweithio gydag ac yn hyblyg o ran y system ffermio bresennol (e.e. rhoi cysgod) ond roedd diddordeb hefyd mewn plannu coed os gallent gael sicrwydd y byddai'n creu incwm. Gallai gwella'r ddealltwriaeth o sut y gall plannu coed gefnogi arallgyfeirio incwm fferm a gwella systemau ffermio sy'n bodoli fod yn fuddiol.

4.3 Roedd newid hinsawdd yn cael ei weld yn broblem a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr addasu ond nid oedd yn cael ei gysylltu'n glos â phlannu coed bob amser. Efallai y byddai o werth i bolisïau a chynlluniau ganolbwyntio mwy ar swyddogaeth coed wrth gefnogi addasu.

4.4 Cododd y cyfranogwyr y pryder nad oes cymhelliant i'r genhedlaeth nesaf barhau i ffermio ar hyn o bryd, am resymau sy'n cynnwys ansicrwydd ariannol a'r diffyg parch tuag at ffermwyr sy'n cael ei amgyffred. Efallai bod cyfle i bwysleisio manteision ariannol tymor hir plannu coed a sut y gall plannu coed helpu i ddangos i'r cyhoedd beth yw'r rhan y mae ffermwyr yn ei chwarae wrth gynhyrchu bwyd a gofalu am yr amgylchedd.

4.5 Nid oedd ffermwyr yn y gweithdai'n teimlo'n hyderus wrth gael a deall gwybodaeth am blannu coed a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Awgrymodd y drafodaeth hefyd bod angen cynyddu'r ymddiriedaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r ffermwyr yng nghyswllt cynlluniau. Gallai cynlluniau sy'n uwchsgilio ffermwyr, er enghraifft trwy ffermydd arddangos a chynghorwyr lleol, yr ymddiriedir ynddynt yn ogystal â hyfforddiant digonol i ffermwyr a chynghorwyr posibl helpu i ymdrin â'r materion hyn.

4.6 Cododd rhai o'r cyfranogwyr y problemau sy'n cael eu hamgyffred sy'n gysylltiedig â phlannu coed, rhai ohonynt yn seiliedig ar gamddealltwriaeth. Codwyd pryderon hefyd bod plannu coed yn gwrthdaro â gofynion rheoleiddiol eraill. Mae ymdrin â galw ffermwyr am fwy o hyfforddiant ar blannu a rheoli coetir yn rhoi cyfle i drafod y materion cymhleth hyn a rhoi cyngor ar sail tystiolaeth, berthnasol.

Awduron yr Adroddiad:

Dr. Caroline Verfuerth, Canolfan Newid Hinsawdd a Thrawsnewidiadau Cymdeithasol, Ysgol Seicoleg, Prifysgol Caerdydd
Geraint Jones, Menter a Busnes
Lisa Roberts, Menter a Busnes

Adroddiad Ymchwil Llawn: Verfuerth, C., Jones, G. a Roberts, L. (2023). Gweithdai i drafod dyfodol plannu coed gyda ffermwyr Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gweithdai-i-drafod-dyfodol-plannu-coed-gyda-ffermwyr-cymru

Barn yr ymchwilwyr yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Caryl Williams
Tystiolaeth Strategol Ffiniau a Chysylltiadau Rhynglywodraethol
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: euexitstrategy@llyw.cymru

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-146-4